# Ysbrydoli i Weithio Gorllewin Cymru a’r Cymoedd - Astudiaeth Achos 2

Atgyfeiriwyd X i gael cymorth gan Ysbrydoli i Weithio gan Cymunedau dros Waith – roedd yn dod o ardal cod post Cymunedau dros Waith, ond er gwaethaf ymgais y sefydliad i weithio gydag ef, nid oedd wedi ymgysylltu.

Roedd Ysbrydoli yn hapus i geisio gweithio gydag X.

Cynhaliodd y gweithiwr yr holl asesiadau a nodi'r anghenion, ac aeth ati gydag X i lunio cynllun gweithredu i'w helpu i gyflawni ei nodau.

Gweithiodd X yn galed ac ymgysylltodd trwy gydol cyfnod y cymorth.

Cyflawnodd X ei gerdyn CSCS a gweithiodd gydag Ysbrydoli i lunio ei CV proffesiynol ac i ymgeisio am swyddi o ddiddordeb.

Rhoddodd X ystyriaeth i'r holl gyngor a chymorth, ac, yn dilyn cyfweliad, cafodd swydd.

Yn ystod y cyfnod o gymorth, daeth X yn dad am y tro cyntaf; roedd wrth ei fodd, ac mae'n wirioneddol fwynhau bod yn dad.

Er bod dod yn dad yn ddigwyddiad cadarnhaol, cafodd ef a'i bartner broblemau'n ymwneud â thai.

Roedd Ysbrydoli yn gallu helpu X a'i bartner gyda'r problemau hyn a'u cefnogi trwy'r broses o gael mynediad at ddarpariaeth tai brys. Gan nad oedd hwn yn ateb parhaol, roedd y ffaith bod X wedi sicrhau cyflogaeth wedi cyflymu'r cynnig o dŷ fforddiadwy, a byddant yn symud i mewn i'w cartref newydd ddydd Llun 3 Mai.

At hynny, cafodd X newyddion trasig yn ystod cyfnod y cymorth pan fu farw ei dad, ac, wrth gwblhau'r gwaith papur i gau'r achos, dywedodd wrth ei weithiwr fod ei fam-gu hefyd wedi marw erbyn hynny. Mae X yn llwyddo i gynnal y gyflogaeth, bod yn dad newydd, galaru am golled ei deulu, a symud i gartref newydd. Rhoddwyd y cynnig i X gysylltu ag Ysbrydoli i Weithio yn y dyfodol pe byddai arno angen cymorth pellach, a rhoddwyd manylion cyswllt cymorth llesiant emosiynol ychwanegol iddo hefyd, pe byddai'n teimlo y bydd arno ei angen.